

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 29ain o Awst 2018  
yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.

## Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 27-06-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Archwylwyr Allannol

Ceisiadau Nawdd

- Marie Currie
- Llais Ogwan

Taliadau angen sylw

D W Lewis

Torri gwair Gorffennaf ag Awst

Cyflog

Mis 5 Awst

HMRC

Mis 5

Derbynebion

Angladdau Mehefin – Gorffennaf - Awst

I'w trafod hefyd

Prisiau prynu biniau Halen a'i llenwi

Ymateb Gamlins i gofnodion/cyfrifon canolfan Penrhos

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Prydles y Swyddfa

# Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 26ain o Fehefin 2018  
yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.

**Cytunwyd i ddod a'r cyfarfod yma ymlaen noson gan fod Cyngor Llawn Mehefin wedi ei ohirio ddwy waith ag i'w gynnal yn dilyn y cyfarfod yma**

Presennol Cyng L James, D Jones-Morris, D W Jones a B Jones

Ymddiheuriadau Cyng C E Hughes a J Pierce

Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng L James

Cod Ymddygiad Dim datgan buddiant

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 30-05-2018 – Cynnigwyd eu bod yn gofnod cywir gan Cyng D Jones-Morris a'r Cyng D W Jones yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion  
Dim

Adroddiad Ariannol

Yr adroddiad ariannol gyfredol yn dangos £31,655.56 yn y banc ond fod £1,453.70 heb ei gyflwyno  
A felly y gwir gyfanswm yw £30,201.86

Incwm

Yn dilyn ail-asesiad gan y Swyddfa Drethi daeth ad-daliad o £548.90 o Cyngor Gwynedd a thal am un angladd

Ceisiadau Nawdd

Dim cais am nawdd wedi ei dderbyn ers y cyfarfod olaf

Taliadau angen sylw

Cytunwyd talu	D W Lewis	Torri gwair Mai a Mehefin
	Llyw Cymru	Rhent 2ail ¼
	Cyflog a Treth Incwm	Mis Mehefin
	Cyngor Gwynedd	Gwastraff
	J D Gardenning	Garddio

Telerau'r Clerc

Adroddwyd fod aelodau o'r Is-bwyllgor Cyllid wedi trafod telerau'r Clerc ac yn argymhell

- symud ei raddfa cyflog o Pwynt 21 i Pwynt 27.
- Ei ol dalu yn ol i 1af o Ebrill 2018
- Cadw'r oriau fel ag y maent ond gan eu bod yn ymwybodol y bydd gryn dipyn o alw arno yn sgil prydlesau Canolfan Penrhos, Y Swyddfa a trafodaethau Canolfan Penrhos/Ysgol Y Faenol o'n blaenau i'r Clerc fonitro ei oriau dros y misoedd nesaf

Adroddiad Archwilwyr Mewnol

Rhanwyd gynnwys adroddiad yr Archwilwyr Mewnol sef Adran archwyllo Cyngor Gwynedd eleni.

Derbynwyd yr Adroddiad gan gymeradwyo fod y Cyngor Llawn yn ei derbyn a'i anfon ymlaen i'r Archwilwyr Allannol y BDO unwaith byddai y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei arwyddo.

Prydles Canolfan Penrhos

Derbynwyd llythyr gan Gamlins yn holi pwy fyddai yn arwyddo y dogfennau ar ran Cyngor Pentir a'n cyfeiriad fel tenantiaid.

**Argymhell i'r Cyngor Llawn** fod Cadeirydd y Cyngor Llawn a Chadeirydd yr Is-Bwyllgor Cyllid yn arwyddo a'r **Cyfeiriad** yn Uned 15 Llys Y Fedwen Parc Menai

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Yn dilyn cyfarfod pellach gyda Dafydd Gibbard o Cyngor Gwynedd daeth yn hysbys y bydd y Ganolfan Arfaethedig yn symud yn agosach ar y Ffordd Penrhos nag oedd yn ymddangos ar y cynllun 'massing' gwreiddiol

Prydles y Swyddfa - Dim ymateb wedi dod o alwadau ag e-byst y Clerc at Colin Williams na James Gibson Clerc i barhau i wneud ymholiadau.

Daeth y cyfarfod i ben 7.00